CRYNODEB GWEITHREDOL

ISELBRISIO

Torri'r cysylltiad rhwng gofal cyflogedig a di-dâl, tlodi ac anghydraddoldebau ledled Prydain

OXFAM

PAPUR BRIFFIO OXFAM – EBRILL 2024

Mae'r papur briffio hwn yn dangos y modd y mae iselbrisio gofal cyflogedig a di-dâl yn sbarduno tlodi ac anghydraddoldebau ledled Prydain, ac mae'n amlinellu gweledigaeth drawsnewidiol ar gyfer newid.

Bob dydd, mae miliynau o bobl, menywod yn bennaf, yn darparu gofal cyflogedig a di-dâl hanfodol i blant a phobl anabl, sâl a hŷn. Ac eto, mae eu cyfraniad enfawr yn parhau i fod yn anweledig, heb ddigon o bwys arno a heb fuddsoddiad digonol ynddo gan lywodraethau.

Mae'n bryd symud i economi ofalgar ffeministaidd, lle mae pob gofal yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi fel lles cymdeithasol hanfodol a chyfrifoldeb ar y cyd; lle mae gofal di-dâl yn cael ei leihau a'i ailddosbarthu; lle mae gofal cyflogedig yn cael ei wobrwyo'n ddigonol; a lle mae gan bob gofalwr lais pwerus mewn prosesau gwneud penderfyniadau.

© Oxfam GB Ebrill 2024

Ysgrifennwyd y papur hwn gan Silvia Galandini a Claire Spoors.

hynod o ddiolchgar i'r ymgynghorwyr arbenigol, Sara Cowan, Thalia Kidder a Nikki Van Der Gaag, a gynhaliodd ymchwil gefndir sydd wedi helpu i lywio a llunio'r adroddiad hwn. Diolch i Lucy Peers a Meroo Seth am eu gwaith dylunio a darlunio.

Hoffem hefyd ddiolch i'r cyd-weithwyr canlynol am eu cyngor, eu harweiniad a'u cymorth, a fu'n hanfodol i ddatblygiad yr adroddiad hwn: Rachel Noble, Sarah Rees, Jamie Livingstone, Hade Turkmen, Lewis Ryder-Jones, Katy Chakrabortty, Yasmin Mahboubi, Clare Coffey, Lucy Cowie, Leena Patel, Anna Marriott, Leah Mugehera, Ridhi Kalaria, Claire Arthur-Lusby a Fatema Tuz Johoora.

Yn olaf, rydym am gydnabod y gwaith hollbwysig diflino y mae cynifer o gymunedau, ymgyrchwyr, sefydliadau, clymbleidiau a mudiadau, o'r lleol i'r cenedlaethol a thu hwnt, yn ei wneud i amlygu'r iselbrisio ac anweledigrwydd gofal, ac i herio anghyfiawnder systemig i beri i newid ddigwydd.

I gael rhagor o wybodaeth am y materion a godwyd yn y papur hwn, anfonwch neges e-bost at sgalandini1@oxfam.org.uk

Mae hawlfraint ar y cyhoeddiad hwn, ond gellir defnyddio'r testun yn rhad ac am ddim at ddibenion eirioli, ymgyrchu, addysg, ac ymchwil, cyhyd ag y cydnabyddir y ffynhonnell yn llawn. Gofynna deiliad yr hawlfraint am i bob defnydd o'r fath gael ei gofrestru gydag ef at ddibenion asesiad o'r effaith. I'w gopïo dan unrhyw amgylchiadau eraill, neu i'w ailddefnyddio mewn cyhoeddiadau eraill, neu i'w gyfieithu neu ei addasu, rhaid sicrhau caniatâd, a gall tâl gael ei godi. E-bost: policyandpractice@oxfam.org.uk.

Mae'r wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir adeg mynd i'r wasg.

Cyhoeddwyd gan Oxfam GB ym mis Ebrill 2024. DOI: 10.21201/2024.000016

Oxfam GB, Oxfam House, John Smith Drive, Cowley, Rhydychen OX4 2JY.

Darlun y clawr: Meroo Seth

Crynodeb gweithredol

> **“Nid yw’r cysylltiad rhwng gofal, tlodi ac anghydraddoldebau yn gynnyrch COVID-19 nac argyfyngau costau byw; mae’n her hirsefydlog.”**

Bob dydd, mae miliynau o bobl ledled y byd a ledled Prydain yn darparu gofal hanfodol cyflogedig a di-dâl i blant yn ogystal â phobl anabl, sâl a hŷn.

Ac eto, mae eu cyfraniad enfawr yn parhau i fod yn anweledig, heb ddigon o bwys arno a heb fuddsoddiad digonol ynddo gan lywodraethau. Mae hyn yn ei dro yn trapio llawer o bobl sy’n darparu ac yn profi gofal mewn cylch dieflig o dlodi, caledi ac allgáu cymdeithasol. Gan fod mwyafrif helaeth y gwaith gofal cyflogedig a di-dâl yn cael ei wneud gan fenywod, mae anweledigrwydd gofal yn effeithio’n anghymesur arnynt. Y rhai yr effeithir arnynt fwyaf yw menywod sy’n wynebu sawl ffurf ar anghydraddoldeb, ffurfiau sy’n aml yn gorgyffwrdd ac yn seiliedig ar ddosbarth, hil, statws mudol, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd a mynegiant rhywedd, anabledd neu hunaniaethau eraill.

Nid yw’r cysylltiad rhwng gofal, tlodi ac anghydraddoldebau yn gynnyrch COVID-19 nac argyfyngau costau byw; mae’n her hirsefydlog. Yn 2020, amlygwyd y mater hwn ym mhapur Oxfam GB *Make Care Count*.[1] Bedair blynedd yn ddiweddarach, mae’r caledi a wynebir gan ofalwyr a’r straen ar y seilwaith gofal cyfan yn parhau i ddyfnhau – elfennau sydd wedi gwaethygu o ganlyniad i’r pandemig ac yn awr yr argyfwng costau byw, a hynny ar ben blynyddoedd o galedi.

Mae’r dystiolaeth a ddarparwyd gan y sefydliadau a’r mudiadau niferus ledled Prydain sy’n eiriol dros well hawliau i ofalwyr a chydnabyddiaeth ddigonol ar gyfer gofal, yn dangos yn glir bod tlodi a chaledi yn dod yn realiti i ormod o ofalwyr cyflogedig a di-dâl.

Oherwydd costau byw cynyddol a gwasgfa ar incwm, mae’r rhai sy’n darparu gofal a chymorth di-dâl i blant a phobl anabl, sâl a hŷn yn wynebu heriau cynyddol wrth dalu am hanfodion. Yn gyffredinol, nid yw gweithwyr gofal yn cael digon o dâl o hyd ac maent yn profi ansicrwydd ac yn destun camfanteisio, tra bo’r seilwaith gofal cymdeithasol a gofal plant dan bwysau anhygoel ac yn ei chael yn anodd darparu gofal hanfodol.

Mae’r iselbrisio treiddiol a systemig mewn perthynas â gofal yn creu ac yn dyfnhau’r cysylltiad rhwng gofal a thlodi. Mae nifer o systemau allweddol yn methu o ran darparu cymorth a chydnabyddiaeth digonol i ofalwyr, a buddsoddiad hanfodol mewn pob math o ofal, elfennau sy’n tynnu mwy o bobl i dlodi a chaledi ac yn hybu anghydraddoldebau. Mae’r systemau hyn yn cynnwys diffyg cymorth i gael gwaith am dâl ac i aros ynddo yn achos y rheiny y mae ganddynt gyfrifoldebau gofalu di-dâl; system nawdd cymdeithasol annigonol; tâl ac amodau gwaith gwael i weithwyr gofal; a thanfuddsoddiad parhaus mewn gofal cymdeithasol a gwasanaethau gofal plant.

Mae’r systemau pŵer hyn sy’n cadw gofal yn anweledig a heb gymorth yn cael eu llunio, eu sbarduno a’u cynnal gan **normau, gwerthoedd a naratifau cymdeithasol ‘cyndyn’ sylfaenol**. Mae’r rhain yn dibrisio, yn anwybyddu

1 S. Galandini ac I. Ferrer. (2020). *Make Care Count: Unpaid and Underpaid Care Work Across Britain*. Oxfam. Cyrchwyd ar 8 Chwefror 2024. https://policy-practice.oxfam.org/resources/make-care-count-unpaid-and-underpaid-care-work-across-britain-620952/. Cyhoeddwyd y papur ochr yn ochr â nodyn briffio: I. Ferrer ac A. Parvez Butt. (2020). *Care, Poverty, and Coronavirus Across Britain*. Cyrchwyd ar 8 Chwefror 2024. https://policy-practice.oxfam.org/resources/care-poverty-and-coronavirus-across-britain-620980/

ac yn diystyru gofal fel 'gwaith menywod' sy'n llai haeddiannol o statws a gwobr ariannol.

Mae'n bryd gweld symudiad rhagweithiol yn ein hymagwedd economaidd tuag at fodel sy'n buddsoddi mewn economi gofal ffeministaidd – lle mae pob gofal, yn gyflogedig a di-dâl, yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi fel nwydd cymdeithasol hanfodol a chydgyfrifoldeb; lle mae gofal di-dâl yn cael ei leihau a'i ailddosbarthu; lle mae gofal cyflogedig yn cael ei wobrwyo'n ddigonol; a lle mae gan bob gofalwr lais pwerus mewn prosesau gwneud penderfyniadau.

Ledled Prydain, mae angen i San Steffan a llywodraethau datganoledig Cymru a'r Alban weithredu ar unwaith ar draws chwe maes allweddol i gatalyddu symudiad i economi ofalgar. Mae'n rhaid iddynt wneud y canlynol:

1 Diwygio'r system drethi a'i gwneud yn deg, yn ailddosbarthol ac yn flaengar i ddarparu adnoddau ar gyfer symudiad i economi ofalgar, ac i gydnabod ac ailddosbarthu'r cyfoeth sy'n cael ei greu a'i gynnal gan lafur gofalwyr di-dâl a gofalwyr nad ydynt yn cael tâl digonol.

2 Cynyddu'r buddsoddiad mewn seilwaith gofal, a sicrhau bod safon a hygyrchedd gwasanaethau yn cael eu blaenoriaeth dros elw.

3 Sicrhau bod gweithwyr gofal cyflogedig ar draws y sectorau gofal cymdeithasol a gofal plant yn cael eu talu'n deg, yn cael mynediad at gyflogaeth sefydlog ac amodau gwaith boddhaol,[2] a bod eu sgiliau'n cael eu cydnabod mewn modd priodol.

4 Atgyfnerthu'r rhwyd diogelwch nawdd cymdeithasol i bawb, gan gynnwys y rhai na allant weithio neu sy'n gorfod lleihau eu horiau gwaith oherwydd cyfrifoldebau gofalu, anableddau neu salwch.

5 Sicrhau cymorth digonol i'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu di-dâl i'w galluogi i gael mynediad at gyflogaeth deilwng â thâl, neu i ddychwelyd i gyflogaeth o'r fath neu aros ynddi.

6 Ymrwymo i gasglu data mewn modd tryloyw ac i olrhain cynnydd o ran a yw polisïau a phenderfyniadau ar wariant yn rhoi gwerth effeithiol ar bob gofal a gofalwr ac yn buddsoddi ynddynt.

Yn Oxfam, rydym yn gweithio mewn undod a phartneriaeth â'r sefydliadau, y mudiadau, y clymbleidiau a'r ymgyrchwyr sy'n ysgogi newid yn y meysydd hyn, a hynny nid yn unig ledled Prydain ond hefyd yn fyd-eang – gan gydnabod bod rhai o'r systemau pŵer sy'n achosi i dlodi ac anghydraddoldebau barhau'n ddiddiwedd, yn eu hanfod, yr un fath ledled y byd.

Yn y pen draw, bydd ewyllys wleidyddol, ymrwymiad ac arweinyddiaeth, a newid yn y naratifau sy'n ymwneud â gofal, yn allweddol i ysgogi newid mewn polisi trawsnewidiol y mae iddo'r dyfnder a'r raddfa angenrheidiol.

Nodyn: Gan fod cylch gorchwyl Oxfam yn gyfyngedig i Brydain (Cymru, Lloegr a'r Alban), dyma ffocws yr adroddiad, ac mae'r dystiolaeth yn berthnasol i'r cenhedloedd cyfansoddol a gyflwynir pryd bynnag y mae ar gael. Mewn rhai achosion, defnyddir ystadegau ar gyfer y DU gyfan yn absenoldeb data ar gyfer Prydain yn unig.

2 Rydym yn cyfeirio yma at y pedwar piler fel y'u diffinnir gan y Sefydliad Llafur Rhyngwladol: hyrwyddo swyddi a menter, gwarantu hawliau yn y gwaith, mynediad at amddiffyniad cymdeithasol, a deialog gymdeithasol, gyda rhywedd yn fater trawsbynciol. Gweler: Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol. *Decent Work and the 2030 Agenda for Sustainable Development*. Cyrchwyd ar 8 Chwefror 2024. https://www.ilo.org/wcmsp5/groups/public/---europe/---ro-geneva/---ilo-lisbon/documents/event/wcms_667247.pdf

Oxfam

Mae Oxfam yn gonffederasiwn rhyngwladol o 21 o sefydliadau sy'n gweithio gyda'i bartneriaid a'i gynghreiriaid, gan estyn allan i filiynau o bobl o amgylch y byd. Gyda'n gilydd, rydym yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau i roi diwedd ar dlodi ac anghyfiawnder, 'nawr ac yn y tymor hwy – i sicrhau dyfodol cyfartal. Mae croeso i chi ysgrifennu at unrhyw un o'r asiantaethau i gael rhagor o wybodaeth, neu ewch i www.oxfam.org

Oxfam America (www.oxfamamerica.org)
Oxfam Aotearoa (www.oxfam.org.nz)
Oxfam Australia (www.oxfam.org.au)
Oxfam-in-Belgium (www.oxfamsol.be)
Oxfam Brasil (www.oxfam.org.br)
Oxfam Canada (www.oxfam.ca)
Oxfam Colombia (www.oxfamcolombia.org)
Oxfam France (www.oxfamfrance.org)
Oxfam Germany (www.oxfam.de)
Oxfam GB (www.oxfam.org.uk)
Oxfam Hong Kong (www.oxfam.org.hk)
Oxfam Denmark (www.oxfam.dk)
Oxfam India (www.oxfamindia.org)
Oxfam Intermón (Sbaen) (www.oxfamintermon.org)
Oxfam Ireland (www.oxfamireland.org)
Oxfam Italy (www.oxfamitalia.org)
Oxfam Mexico (www.oxfammexico.org)
Oxfam Novib (Yr Iseldiroedd) (www.oxfamnovib.nl)
Oxfam Québec (www.oxfam.qc.ca)
Oxfam South Africa (www.oxfam.org.za)
KEDV (www.kedv.org.tr))

OXFAM